Mae'r symud at sero net a chefnogi Cyllidebau Carbon yn creu fframwaith polisi a chyfreithiol sy'n annog datgarboneiddio, mwy o effeithlonrwydd o ran adnoddau a thwf cysylltiedig yn sectorau'r economi werdd, gan gynnwys:

- Trydaneiddio trafnidiaeth, gan gynnwys rheilffyrdd, bysiau, faniau a cheir;
- Cynhyrchu pŵer adnewyddadwy;
- Gweithgynhyrchu offer ynni glân;
- Tanwydd adnewyddadwy a chyllid gwyrdd;
- Adfer natur a gwasanaethau ecosystem; a

- Mwy o effeithlonrwydd o ran adnoddau mewn gweithgarwch ar draws cadwyni cyflenwi, gan gynnwys datblygu cadwyni cyflenwi yng Nghymru lle bo hynny'n bosibl.

Mewn sawl maes, rydym eisoes yn gweithredu i gefnogi busnesau a datgloi twf gwyrdd. Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni sero net yn cael ei gydnabod a'i gefnogi gan wasanaeth Busnes Cymru, sydd wedi integreiddio ystyriaethau datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd i'w waith o ddarparu gwasanaethau. O ganlyniad, mae'r materion hyn bellach yn ganolog i sgysiau gyda busnesau yn ogystal â gwaith teg a chynhyrchiant.

Mae cylch gwaith Banc Datblygu Cymru hefyd yn cynnwys datblygu cynhyrchion ariannol sy'n cefnogi busnesau i bontio tuag at sero net. Mae'n cynnig cynllun peilot newydd 'buddsoddi i arbed' gwerth £10m o'r enw'r Cynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd, sy'n helpu busnesau i leihau eu hallyriadau carbon ac i arbed arian ar eu biliau ynni.

Rydym hefyd yn adeiladu mapiau cadwyni cyflenwi i helpu cwmnïau sy'n gwneud cais am drwyddedau Ynni Gwynt ar y Môr i allu dod o hyd i gadwyn gyflenwi yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i olrhain y twf (trosiant a chyflogaeth) yn y sector ynni carbon isel yng Nghymru gan ddefnyddio'r Arolwg Economi Carbon Isel ac Ynni Adnewyddadwy. Yn y dyfodol, byddwn yn ategu'r data hyn gyda gwybodaeth gan arweinwyr y diwydiant a sefydliadau cynrychiadol.

Beth yw'r rhwystrau allweddol i Gymru o ran gwneud y gorau o gyfleoedd yn yr economi werdd, a pha gamau y dylid eu cymryd i'w goresgyn?

Mae sawl rhwystr o ran gwneud y gorau o'r economi werdd:

- Yr angen am **fuddsoddiad cyfalaf** ar gyfer seilwaith ar raddfa fawr;
- **Cyfyngiadau seilwaith presennol**, gan gynnwys gridiau ynni (mae llawer o'r seilwaith ynni yn fater a gedwir yn ôl gan gynnwys yr ysgogiadau ariannol i gefnogi'r seilwaith hwnnw)
- Digon o **weithwyr medrus a phrofiadol** mewn meysydd fel gosod ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd o ran adnoddau ac adfer natur.
- Datblygu **cadwyn gyflenwi yng Nghymru**;
- Sicrhau argaeledd **safleoedd addas** i gwmnïau ehangu, arallgyfeirio a defnyddio deunyddiau crai eilaidd yn well fel rhan o economi gylchol.
- Diffyg sicrwydd yn y **broses gynllunio** a'r angen i alinio prosesau cydsynio a chynllunio ag amcanion gweinidogol, gan gynnwys polisi a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn gryno, ni fydd busnesau'n buddsoddi mewn datblygu gallu gwyrdd ac arloesi oni bai bod llif clir a sicr o fuddsoddiad wedi'i gynllunio, a dealltwriaeth o'r hyn sy'n ofynnol o ran achrediadau, cymwysterau a sgiliau.

Yn ogystal, mae'r ddealltwriaeth o ran yr hyn a olygir gan yr 'economy werdd' yn anghyson, ac o ran beth yw'r cyfleoedd. Mae angen deialog gyda rhanddeiliaid, prynwyr a chyflenwyr yn sectorau allweddol yr economi werdd, ochr yn ochr â datblygu llif o gontractau a buddsoddiad, er mwyn sicrhau bod gan y farchnad ddealltwriaeth a darlun llawn.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion sefydlu grŵp cynghori newydd i ymgysylltu ag arweinwyr busnes yng Nghymru a helpu i lywio polisi a rhaglenni'r llywodraeth a fydd yn cynnwys edrych ar sut mae Cymru'n gwneud y

gorau o gyfleoedd yn yr economi werdd. Mae fy swyddogion hefyd yn edrych ar fapio rhanddeiliaid a chadwyni cyflenwi. Bydd y rhain yn helpu i nodi'r rhai sy'n gallu cefnogi diwydiant, gan dynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer cydweithredu i wella sgiliau a chael gwared ar rwystrau.

Mae fy swyddogion eisoes yn datblygu cyfres o adolygiadau byr ar ddatrys problemau mewn pum maes i ymgynnull â rhanddeiliaid a rhoi her wirioneddol i'r llywodraeth. Bydd y rhain yn ystyried ein meysydd blaenoriaeth a sut y gallwn gyflymu'r broses gyflawni, gan gynnwys ar draws ardaloedd twf gwyrdd, fel ynni gwynt arnofiol ar y môr a sgiliau.

Yn ogystal, cyhoeddodd y cyn-Weinidog Newid Hinsawdd y trydydd diweddariad a'r un terfynol yn erbyn camau gweithredu'r Gwaith Ymchwil Manwl ar Ynni Adnewyddadwy ym mis Mawrth 2024. Nododd y Grŵp Llywio o randdeiliaid o bob rhan o'r sector ynni adnewyddadwy 21 o rwystrau a heriau i'w datrys wrth ddatblygu ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Roedd y 21 o gamau gweithredu yn cynnwys gwaith ar gydsynio ac er bod gwaith yn mynd rhagddo, mae llawer iawn o waith eisoes wedi digwydd ar gynllunio a chydsynio.

Rydym yn parhau i weithio gyda chyrff cydsynio – Cyfoeth Naturiol Cymru, Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, ac awdurdodau lleol – i sicrhau bod digon o adnoddau i gwrdd â'r cynnydd disgwylidig mewn gwaith achos wrth i ni bontio i Gymru sero net.

Pa gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cadwyni cyflenwi yng Nghymru yn sectorau'r economi werdd?

Mae llwyddiant Cymru fel cenedl ailgylchu, sydd gyntaf yn y DU, a'r ail yn y byd, yn ein rhoi mewn sefyllfa gref i fanteisio ar y cyfleoedd economaidd a ddaw yn sgil economi gylchol.

Yn ogystal â'r camau craidd y mae Busnes Cymru yn mynd i'r afael â hwy, rydym yn gweithio'n strategol ar ddefnyddio caffael cyhoeddus i ddatblygu cadwyni cyflenwi yng Nghymru yn sectorau'r economi werdd. Mae sector cyhoeddus Cymru yn gwario tua £8 biliwn bob blwyddyn ar nwyddau a gwasanaethau. Rydym yn cefnogi busnesau yng Nghymru drwy Gronfa'r Economi Gylchol (CEF) ar gyfer Busnesau, i addasu eu prosesau i ddefnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu a gwella eu heffeithlonrwydd o ran adnoddau.

Rydym hefyd yn targedu ystod o gyfleoedd mewnfuddsoddi a buddsoddi cynhenid, gan gynnwys cefnogi'r buddsoddiad drwy ailbrosesu busnesau i Gymru fel Jayplas. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu cyfleoedd ar gyfer ynni morol a gwynt arnofiol ar y môr er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i economi Cymru. Mae hyn yn cynnwys ein buddsoddiad o £31 miliwn i brosiect Morlais Menter Môn gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, a'n gwaith parhaus i ddarparu Porthladdoedd Rhydd mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU.

Fodd bynnag, ni ddylem ganolbwyntio ar y galw yng Nghymru yn unig gan mai dim ond lefel benodol o dwf economaidd y bydd hyn yn ei ddarparu. Mae sawl ffordd o gefnogi'r gwaith o ddatblygu cadwyni cyflenwi yng Nghymru yn fwy cyffredinol:

- Ymgymryd â dadansoddiad llawn o allu'r ochr gyflenwi i nodi gallu cyflenwyr presennol a darpar gyflenwyr yn y dyfodol.

- Sicrhau bod dulliau caffael ar gyfer gwaith yn yr economi werdd yn addas i fusnesau bach a chanolig a'u bod yn hygyrch i gwmnïau llai o Gymru.
- Sefydlu pa sgiliau ac achrediadau sydd eu hangen yn sectorau'r economi werdd, cynnal dadansoddiad o sgiliau i fesur lefelau sgiliau a bylchau a darparu'r hyfforddiant angenrheidiol i gwmnïau o Gymru.
- Sicrhau bod llif contractau a buddsoddiadau yn sectorau'r economi werdd yn cael eu gweld, fel bod busnesau'n gwybod beth sydd i ddod ac yn gallu paratoi ar gyfer tendro.
- Buddsoddi mewn gweithgynhyrchu newydd pan fo potensial i fanteisio ar gyfleoedd busnes yng Nghymru a thu hwnt.
- Dysgu o ddulliau arloesol presennol yn y maes hwn a'u tyfu.
- Ehangu'r farchnad ar gyfer deunyddiau crai eilaidd i ddatgloi budd economaidd ein cyfraddau ailgylchu uchel, gan gynyddu gwytnwch a chystadleurwydd cadwyni cyflenwi yng Nghymru. Parhau â chyllid a dulliau caffael sy'n canolbwyntio ar arloesi fel mecanwaith ar gyfer datblygu cadwyni cyflenwi yng Nghymru.

Mae angen i ni nodi cynhyrchion a gwasanaethau'r dyfodol fel y gallwn achub y blaen a chael sylfaen gyflenwi alluog sy'n barod i fanteisio ar y cyfleoedd. Mae'n rhaid i ni ganolbwyntio ar nodi cyfleoedd sydd â galw sylweddol a pharhaol yng Nghymru ac ymhellach y tu hwnt.

Pa heriau o ran sgiliau sy'n bodoli mewn perthynas â phontio i economi werdd? Pa gamau y dylid eu cymryd, a phwy ddylai eu cymryd, i sicrhau bod y sgiliau yno i fodloni gofynion cynyddol economi werdd?

Mae sgiliau Sero Net yn canolbwyntio ar y sectorau a'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni sero net. Mae cyfleoedd sylweddol – ac angen – i feithrin sgiliau a fydd yn ein galluogi i feithrin y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn cynnwys mewn meysydd fel perygl llifogydd a draenio ac wrth adfer natur a gweithrediad ecosystemau – yn ogystal â mewn meysydd fel adeiladu.

Rwy'n cydnabod yn arbennig bwysigrwydd creu llif o unigolion medrus a thalentog. Roedd hwn yn un o'n saith blaenoriaeth allweddol o fewn y [Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net](#) a gyhoeddwyd gennym y llynedd.

Mae rhai sectorau allyriadau wedi gwneud mwy o gynnydd nag eraill o ran cyflawni ymrwymadau sero net. Mewn rhai sectorau, mae ansicrwydd ymhlith y gweithlu, diwydiant, busnesau a rhanddeiliaid ynglŷn â'r cyfeiriad y dylid ei ddilyn a sut y gallai'r newidiadau hyn effeithio ar sgiliau eu gweithlu neu ar lwybr gyrfa unigolyn.

Mae angen i ni hefyd annog mwy o bobl ifanc, yn enwedig menywod a grwpiau lleiafrifol, i astudio pynciau STEM a hyfforddi mewn peirianeg ac adeiladu.

I'r perwyl hwnnw, ym mis Hydref 2023 lansiodd [ymgyngoriad](#) Sgiliau Sector Sero Net, a roddodd gyfle i gryfhau ein dealltwriaeth o'r sefyllfa sgiliau a'r heriau sgiliau cyfredol ar gyfer pob sector allyriadau yng Nghymru. Nod yr ymgynghoriad oedd casglu rhagor o wybodaeth am anghenion sgiliau ar gyfer gweithlu'r presennol a'r dyfodol. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion yn gynharach y mis hwn.

Bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn helpu i lywio Mapiau Ffordd Sgiliau Sectorau a fydd yn cynnwys cerrig milltir allweddol, gofynion sgiliau a gofynion y gweithlu ar gyfer pob sector allyriadau. Bydd y mapiau hyn yn ein galluogi i symud i'r rheng flaen er mwyn ysgogi a chreu gweithlu'r dyfodol. Bydd y rhain hefyd yn helpu i weld y cyfleoedd a thynnu sylw at y camau sydd eu hangen o fewn y system sgiliau a'r ysgogiadau ehangach i gefnogi twf yn ein heconomi.

Yn y cyfamser, rydym wedi buddsoddi £30m yn ein rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol i helpu pobl gyflogedig i uwchsgilio ac ailsgilio. Mae rhan o'r rhaglen hon yn cynnwys buddsoddiad o £3.5m i lenwi bylchau sgiliau sero net ym maes adeiladu, ynni, gweithgynhyrchu a pheirianeg. Mae'r cap cyflog wedi'i ddileu ar gyfer yr elfen hon i ganiatáu i fwy o bobl gael mynediad at y sgiliau a'r cymwysterau sero net gwerthfawr hyn. Rydym hefyd wedi creu elfen benodol ar gyfer sgiliau sero net yn ein Rhaglen Sgiliau Hyblyg (FSP) er mwyn cefnogi cyflogwyr i uwchsgilio eu staff i ddiwallu anghenion economi'r dyfodol.

Mae gennym eisoes brentisiaethau cryf sy'n cynnig sgiliau sero net, ac rydym yn bwriadu ymgorffori cymwysterau newydd a diwygiedig wrth iddynt gael eu datblygu i ddiwallu anghenion newidiol diwydiant. Er enghraifft, Llwybr Prentisiaethau Cymru mewn Rheoli Ynni a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023.

Rydym yn mabwysiadu dull newydd o adolygu a datblygu fframweithiau prentisiaethau. Ochr yn ochr â mabwysiadu dull cyd-adeiladol drwy weithio gyda rhanddeiliaid strategol, bydd meini prawf ar gyfer blaenoriaethu fframweithiau a llwybrau i'w hadolygu. Bydd y rhain yn cynnwys dyddiadau dod i ben cymwysterau, ystyried adolygiadau o'r sector, nifer y dysgwyr ar y gwahanol lwybrau ac unrhyw ofynion sero net cynhenid.

Beth fydd ei angen ar weithwyr a chyflogwyr ar gyfer pontio teg i economi Sero Net, a pha gamau y dylai Llywodraeth Cymru eu cymryd i gyflawni'r elfennau o hyn sydd o fewn ei phwerau datganoledig?

Mae gwaith teg a phartneriaeth gymdeithasol yn hanfodol er mwyn cyflawni datgarboneiddio busnesau yn llwyddiannus a chynaliadwy. Yn wir, mae'n amhosibl cyflawni datgarboneiddio busnesau heb y gweithlu. Fel gydag unrhyw bontio sylweddol, mae potensial i'r costau a'r buddion gael eu dosbarthu'n anghyson ac i weithwyr gael eu heffeithio'n negyddol. Trwy flaenoriaethu gwaith teg a thrwy groesawu partneriaeth gymdeithasol, gallwn sicrhau pontio cynhwysol a thecach wrth i ni ddatgarboneiddio ein heconomi a'n busnesau.

Bydd gwreiddio gwaith teg fel rhan o bontio teg yn helpu i ddiogelu lles gweithwyr, sicrwydd o ran swyddi, ac yn annog dysgu a datblygu'r gweithlu, sy'n hanfodol i'r gwydnwch y bydd ei angen ar fusnesau. At hynny, bydd ymgysylltu â gweithwyr ac undebau llafur mewn partneriaeth gymdeithasol a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar y gweithlu yn meithrin lefelau uwch o ymddiriedaeth, cydweithredu ac yn y pen draw yn galluogi canlyniadau datgarboneiddio mwy effeithiol.

Bydd angen i gyflogwyr ddeall maint a sicrwydd o ran buddsoddiad yn y dyfodol er mwyn cael yr hyder i ariannu twf yng ngallu'r gweithlu. Er mwyn manteisio ar bontio teg, lle mae sectorau a swyddi newydd yr economi werdd wedi'u lleoli mewn cymunedau ledled Cymru, bydd angen gweithlu sydd wedi'i hyfforddi yn y sgiliau sydd eu hangen. Mae prentisiaethau'n rhan bwysig o hyn.

Drwy ein cymorth ariannol i TUC Cymru, rydym yn cefnogi eu gwaith ar bontio teg, gan gynnwys eu huchelgeisiau i ddatblygu rhwydwaith o Gynrychiolwyr Gwyrdd. Mae hyn yn cyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i gefnogi cynigion TUC Cymru i aelodau undeb ddod yn Gynrychiolwyr Gwyrdd yn y gweithle.

Ym mha ffyrdd y bydd angen i Lywodraeth Cymru weithio mewn partneriaeth ag eraill i wireddu potensial yr economi werdd a sicrhau cyfnod pontio teg? I ba raddau y mae'r gwaith partneriaeth sydd ei angen yn cael ei wneud?

Mae gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn gwireddu potensial yr economi werdd. Rydym eisoes yn gweithio gyda'r Gynghrair Ynni ar y Môr, Cynghrair y Môr Celtaidd, Ynni Morol Cymru a'r Rhaglen Ynni Morol. Cyhoeddais ar 17 Ebrill y byddwn yn bwrw ymlaen â gwaith gyda'r diwydiant ar gytundeb sector ar gyfer ynni adnewyddadwy a fydd yn ceisio adeiladu ar y gwaith ymchwil manwl.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda chynrychiolwyr o bob sector a rhanbarth yng Nghymru i ddatblygu set o egwyddorion ar gyfer datblygu'r grid. I'r perwyl hwn, byddaf yn creu grŵp cynghori annibynnol ar grid trydan y dyfodol i Gymru. Bydd y grŵp hwn yn ein helpu i ddeall y dulliau posibl o fynd ati i ddarparu seilwaith i drawsyrro trydan, cytuno ar egwyddorion ar gyfer yr atebion mwyaf priodol i Gymru, a chreu cronfa gyhoeddus o dystiolaeth i gefnogi'r egwyddorion hyn.

Mae llwyddiant Cymru o ran ailgylchu wedi'i adeiladu ar weithio mewn partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol a'r sector gwastraff ac mae'n sylfaen i'n ffordd o weithio yn *Mwy nag Ailgylchu* i bontio i economi gylchol. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â diwydiant yn ogystal â'r sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol a sefydliadau academiaidd yng Nghymru i weithredu *Mwy nag Ailgylchu*. Rydym hefyd yn gweithio gyda phartneriaid rhyngwladol i rannu arferion gorau, ymchwil a chydweithio. Mae Cymru wedi cael ei dewis eleni i gynnal Hotspot yr Economi Gylchol Ryngwladol i gydnabod ei harweinyddiaeth wrth bontio i'r economi gylchol.

Roedd datblygu'r Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu hefyd yn seiliedig ar ymgynghori â diwydiant, y byd academiaidd a'r undebau llafur. Mae angen i ni fynd ati i gael cwmnïau mewn cadwyni cyflenwi gwyrdd i ymrwymo i'n Cod Ymarfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, sy'n mynd i'r afael â materion fel defnydd amhriodol o gontractau dim oriau, cosbrestru undebau a chyfraddau "Cyflog Byw" y Living Wage Foundation. Er mwyn mynd ymhellach, mae angen i ni nodi'r hyn y mae Llywodraeth y DU a'i phartneriaid cyflawni yn ei gynllunio o ran buddsoddi, fel y gallwn gynnig cadwyni cyflenwi parod iddynt a fydd yn helpu i sicrhau'r buddion cymdeithasol ac economaidd mwyaf posibl i Gymru.

Mae'n rhaid i ni nawr adeiladu ar ein gwaith ar draws rhanbarthau mewn partneriaeth â rhanddeiliaid i gyfuno ffrydiau ariannu a mentrau amrywiol ar draws gwahanol haenau o lywodraeth, gan weithio gyda'r Parthau Buddsoddi newydd, y Bargeinion Dinesig a Thwf ac Awdurdodau Lleol.

Mae Llywodraeth Cymru yn dweud y bydd yn wynebu cyfyngiadau cyllidebol sylweddol yn y tymor byr. Sut y dylai flaenoriaethu buddsoddi i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r economi werdd yn y tymor byr a'r tymor hwy? Pa ddulliau ariannu arloesol y gellid eu hystyried i wneud y mwyaf o fuddsoddiad a buddion posibl?

Mae Asesiadau Effaith Economaidd yn dangos bod gohirio buddsoddiad mewn newid hinsawdd yn arwain at gostau uwch i'r economi. Mae'n allweddol ein bod yn blaenoriaethu buddsoddiad mewn ffordd sy'n galluogi gweithredu ac yn gwneud economi Cymru yn wydn ac yn gystadleuol mewn economi fyd-eang sy'n datgarboneiddio.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru a phartneriaid awdurdodau lleol wedi cydnabod y gallai rhai gwasanaethau gael eu darparu'n fwy effeithlon drwy bartneriaethau a chaffael a rennir. Adlewyrchir hyn wrth sefydlu'r Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'u rolau statudol mewn datblygu economaidd strategol.

Mae Cyd-bwyllgorau Corfforedig, awdurdodau lleol, y GIG a rhannau eraill o'r sector cyhoeddus yn caffael nwyddau a gwasanaethau o'r economi werdd. Rydym yn ystyried sut y gellid gwneud y caffaeliadau hyn yn fwy effeithlon ac yn fwy strategol. Bydd hyn yn darparu gwell gwerth am arian ac yn helpu'r sector cyhoeddus i gefnogi cadwyni cyflenwi'r economi werdd yng Nghymru.

Mae ein gwaith ar ynni yn blaenoriaethu cadw buddsoddiad a gwerth o fuddsoddiad yng Nghymru. Rydym eisoes yn arloesi drwy Trydan Gwyrdd, Ynni Cymru a'r Gronfa Ynni Lleol. Cymru yw'r unig ran o'r DU sydd â datblygwr ynni adnewyddadwy sector cyhoeddus. Mae Trydan Gwyrdd Cymru wedi'i sefydlu i arwain prosiectau ynni adnewyddadwy newydd ar dir cyhoeddus yng Nghymru. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod Cymru'n elwa'n uniongyrchol ar ddatblygu prosiectau ynni adnewyddadwy newydd gydag incwm o ddatblygiadau yn dod yn ôl i Lywodraeth Cymru. Drwy Trydan Gwyrdd Cymru byddwn hefyd yn ceisio sicrhau lefel uwch o fudd uniongyrchol i gymunedau sy'n cefnogi swyddi gwyrdd lleol a gwerth amgylcheddol a chymdeithasol ehangach.

Mae cyfyngiadau cyllidebol yn golygu bod yn rhaid i ni feddwl a gweithredu'n ddoethach o ran sut rydym yn cefnogi diwydiant ac yn ysgogi buddsoddiad gan Lywodraeth y DU yn unol â'n blaenoriaethau. Mae angen i ni hefyd wneud defnydd hyd yn oed yn well o asedau fel cyfleuster Ymchwil Gweithgynhyrchu Uwch Cymru, sydd ar hyn o bryd yn gweithio ar nifer o fentrau i ddatgarboneiddio ein cadwyni cyflenwi ac a allai ehangu gweithrediadau i ddatblygu technoleg werdd.

Craffu Cyffredinol

Model Gweithredu Targed y Ffin a Safleoedd Rheolaethau'r Ffin

Cyhoeddwyd Model Gweithredu Targed y Ffin (TOM) gan Lywodraeth y DU ym mis Awst 2023, gyda chytundeb Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, gan nodi mesurau diogelu ar gyfer bioddiogelwch a diogelwch bwyd.

Ar gyfer mewnforyon ac eithrio o lwerddon, dechreuodd gwiriadau ffisegol ar nwyddau iechydol a ffytoiechydol (SPS) a fewnforiwyd o'r UE o 30 Ebrill ymlaen. Mae hyn yn golygu nad yw'r gwiriadau wedi dechrau eto yn nhri phorthladd fferi Cymru.

Nid ydym wedi cytuno ar ddyddiad ar gyfer dechrau cynnal gwiriadau ffisegol ar fewnforyon o lwerddon eto. Rwyf wedi addo y byddwn yn rhoi rhybudd rhesymol i fusnesau er mwyn iddynt allu paratoi ar gyfer y gwiriadau hyn. Yn y cyfamser, mae Cymru'n parhau i gynllunio ar gyfer tri Safle Rheolaethau'r Ffin ar gyfer gwiriadau iechydol a ffytoiechydol: safle wedi'i redeg gan y llywodraeth yng Nghaergybi; a dau gyfleuster wedi'u rhedeg gan y porthladd yn Abergwaun a Doc Penfro. Mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau yng Nghaergybi, ac rydym yn cwblhau'r cynlluniau gyda phorthladdoedd Sir Benfro.

Nid yw'r materion polisi a oedd yn weddill ar adeg Model Gweithredu Targed y Ffin wedi symud ymlaen ac nid oes gobaith o'u datrys cyn yr haf, yn fwy tebygol yr hydref.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU "Safeguarding the Union" (31 Ionawr 2024), sy'n nodi rheolau ar gyfer nwyddau sy'n symud rhwng Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Mae nodweddion i'w croesawu, gan gynnwys tynhau'r diffiniad o Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn ailddatgan ymrwymiad ym Model Gweithredu Targed y Ffin a oedd yn rhan allweddol o'n cytundeb, gan gynyddu bioddiogelwch ac atal masnach rhag cael ei dargyfeirio oddi wrth borthladdoedd yng Nghymru.

Fodd bynnag, mae Safeguarding the Union hefyd yn cynnwys datganiad na fydd Safle Rheolaethau'r Ffin yn Cairnryan, er ei fod yn cadarnhau bod rheolau Model Gweithredu Targed y Ffin yn berthnasol i nwyddau o Iwerddon (ar wahân i Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon) sy'n cael eu mewnfario i Brydain Fawr ar y llwybr hwnnw. Rydym wedi bod yn pwysu ar Lywodraeth y DU am ragor o wybodaeth am eu cynigion. Mae'n hollbwysig bod gennym reolau clir ar gyfer nwyddau sy'n dod o Iwerddon i Brydain Fawr a bod awdurdodau ar y rheng flaen yn gallu gwahaniaethu rhwng Nwyddau Cymwys Gogledd Iwerddon a nwyddau eraill sy'n rhwym wrth drefn Model Gweithredu Targed y Ffin, ac nad yw'r rheolau'n cael eu camddefnyddio.

Mewn cyflwr sefydlog, mewnforyr fydd yn talu costau gwiriadau ffin ac mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i dalu costau adeiladu Safleoedd Rheolaethau'r Ffin yng Nghymru, yn amodol ar gymeradwyo achosion busnes. Fodd bynnag, nid yw wedi ymrwymo i ariannu costau ehangach, er enghraifft recriwtio a hyfforddi staff i gynnal y gwiriadau. Mae hon yn gost sy'n gysylltiedig â Brexit, a dylai Llywodraeth y DU ei hariannu. Heb yr ymrwymiad hwnnw, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid cychwynnol er mwyn i Sir Benfro ac Ynys Môn allu dechrau paratoi. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddynt recriwtio staff ychwanegol cyn dechrau cynnal gwiriadau ffisegol, felly bydd angen dod o hyd i gyllid cyn cytuno ar ddyddiad dechrau.

Rydym yn gobeithio y bydd Llywodraeth newydd y DU yn gallu mynd i'r afael â'r materion a adawyd iddi mewn modd adeiladol a chydweithredol. Os yw'r Llywodraeth newydd honno'n weinyddiaeth Lafur yna wrth gwrs byddwn am ystyried gyda nhw a gweinyddiaethau eraill oblygiadau unrhyw gytundeb milfeddygol posibl gyda'r Undeb Ewropeaidd, ond ar hyn o bryd, dyna'r cyfan y gallwn ei ddweud.

Masnach yr UE / Masnach y tu allan i'r UE

Cyn cyhoeddi Etholiad Cyffredinol y DU roedd sawl trafodaeth yn mynd rhagddynt; gan gynnwys gydag India, Cyngor Cydweithredol y Gwlff (GCC), Israel, y Swistir, Korea a Thwrci. Mae saib ar hyn o bryd yn y trafodaethau gyda Chanada a Mecsico. Ar 17 Mai, cyhoeddodd y DU ei bod wedi adneuo ei hofferyn ymaelodi yn ffurfiol â'r Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel (CPTPP). Mae swyddogion yn parhau i ymgysylltu â chymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynghylch mynd i'r afael â gwaith o dan bwyllograu'r Cytundeb Masnach Rydd, a Chytundeb Masnach a Chydweithredu'r UE (TCA).

Rydym yn parhau i weld gwerth trefniant mwy sylweddol dan arweiniad Llywodraeth y DU ar gyfer cynnwys y Llywodraethau Datganoledig mewn gwaith sy'n gysylltiedig â'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu a'r berthynas ehangach. Rydym yn edrych ymlaen at fwrw ymlaen â hyn ar ôl Etholiad Cyffredinol y DU.

Cyfarfu Cyngor Partneriaeth y DU-UE ar 16 Mai gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn bresennol i gynrychioli Gweinidogion Cymru. Mae pwyllgorau'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu wedi dechrau cwrdd ar gyfer 2024 gyda chyfarfod y Pwyllgor Arbenigol ar Bysgodfeydd ar 23 Mai. Bydd y mwyafrif helaeth yn cael eu cynnal yn yr hydref.

Prentisiaethau

Yn ein Datganiad Polisi ar Prentisiaethau, rydym wedi datblygu fframwaith strategol ar gyfer dyfodol y rhaglen brentisiaethau. Mae ffocws ar fynd i'r afael â'r heriau y mae

unigolion a chyfflogwyr yn eu hwynebu oherwydd effaith y pandemig, yr argyfwng costau byw, a'r newidiadau economaidd.

Byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil i gyflawni'r Datganiad, gan sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i bobl Cymru.

Yn y flwyddyn ariannol hon, byddwn yn buddsoddi dros £143m mewn prentisiaethau o safon sy'n darparu buddion economaidd hirdymor a gyrfaedd cadarn.

Rydym yn falch o'n hanes o ddarparu ein rhaglen brentisiaethau flaenllaw yng Nghymru. Er gwaethaf cefndir o heriau economaidd sylweddol - colli cronfeydd ôl-UE a addawyd, pwysau chwyddiant a chost gynyddol fframweithiau, mae buddsoddi mewn prentisiaethau yn parhau i fod yn flaenoriaeth gwariant allweddol.

Er bod colli Cronfa Gymdeithasol Ewrop, heb ddim i gymryd ei lle, yn golygu y bydd effaith yn parhau i fod ar faint y contract, o'i gymharu â 2023/24, mae swyddogion yn gweithio'n gadarnhaol gyda'r rhwydwaith i gynllunio'r ddarpariaeth i wneud y defnydd gorau posibl o'r arian sydd ar gael.

Gwnaethom gynnal Asesiad Effaith Integredig Strategol (SIIA) ar effeithiau penderfyniadau cyllidebol sydd ar gael i'r cyhoedd.

Mae'r ardoll brentisiaethau yn dreth gyflogaeth Llywodraeth y DU, sy'n gwrthdaro yn uniongyrchol â meysydd cyfrifoldeb datganoledig, ac yn eu tanseilio. Rydym yn gweithio gyda phob cyflogwr ledled Cymru i gefnogi eu hanghenion presennol ac yn y dyfodol, waeth beth fo'r ardoll.

Gan fod y refeniw o'r ardoll wedi disodli'r system bresennol ar gyfer cyllid prentisiaethau yn Lloegr, nid yw'r ardoll yn darparu unrhyw arian newydd sylweddol i Gymru. Pennir y dyraniad ardoll brentisiaethau cyffredinol y mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn gan Lywodraeth y DU drwy fformiwla Barnett, ac yna mae Gweinidogion Cymru yn dyrannu adnoddau yn ei chyllideb yn unol â blaenoriaethau Cymru, fel y'u cymeradwyir gan y Senedd.

Ers 2020-21, ni ellir adnabod refeniw'r ardoll mwyach o fewn taliadau Barnett. Felly, er bod Llywodraeth Cymru yn gwybod y symiau gwirioneddol a drosglwyddwyd dros dair blynedd gyntaf y broses o gyflwyno'r ardoll, nid oes gennym unrhyw wybodaeth bellach o ran beth yw'r symiau hyn.

Yr economi sylfaenol

Mae meithrin yr economi sylfaenol yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn fy ngweledigaeth economaidd gyffredinol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sefydlu llinell sylfaen newydd o'r sectorau sy'n ffurfio'r rhan hon o'r economi. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall cyfansoddiad presennol yr economi sylfaenol o safbwynt busnesau a'r gweithlu a bydd yn helpu i lywio ein hymyraethau sy'n flaenoriaeth wrth symud ymlaen.

Mae cynlluniau'n cael eu datblygu i gynnal gwerthusiad o brosiectau a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf a bydd yr hyn a ddysgwyd o'r gwaith hwn yn cael ei rannu ar draws portffolios i annog mabwysiadu arferion da ymhellach.

Mae cymorth yr economi sylfaenol yn cael ei brif ffrydio o fewn arlwy Busnes Cymru. Trwy hyn, mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno dau ddigwyddiad Expo yr economi

sylfaenol yn yr hydref, gan ganiatáu i fusnesau lleol gwrdd â sefydliadau a deall gofynion cymwysterau sy'n gysylltiedig â chontractau sydd ar y gweill.

Gall ein gwaith ar yr economi sylfaenol gyfrannu at yr economi werdd. Rydym yn cefnogi Cyfle i ddarparu hyfforddiant a phrofiad gwaith i 120 o bobl ifanc a fydd yn helpu i ddarparu sgiliau hanfodol mewn gwaith trydanol a phlymio carbon isel. Mae Wood Knowledge Wales hefyd yn cael ei ariannu i gydlynu rhwydweithiau pren carbon isel, gan gynnwys canolbwyntio ar greu rolau medrus a galw cynyddol am gynnyrch pren a gynhyrchir yn lleol.

Porthladdoedd Rhydd

Ym mis Rhagfyr 2023, cyflwynodd consortiwm Porthladd Rhydd Ynys Môn a'r Porthladd Rhydd Celtaidd eu Hachosion Busnes Amlinellol. Cawsant eu hasesu a bu'r Cabinet yn eu trafod ym mis Mawrth 2024. Cytunodd cyn-Weinidog yr Economi y gallai uwch-swyddogion gytuno ar Achos Busnes Amlinellol y Porthladd Rhydd Celtaidd unwaith yr aethpwyd i'r afael â rhai camau gweithredu hanfodol, ac y byddai angen cymeradwyaeth y Gweinidog ar gyfer ailgyflwyno Achos Busnes Amlinellol Ynys Môn, gan fod y materion yn fwy sylweddol. Cyflwynodd y ddau Borthladd Rhydd eu hymateb i'r camau hanfodol hyn ar 22 Ebrill ac mae'r rhain wedi'u hasesu gan swyddogion yn Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Mae'r Etholiad Cyffredinol wedi golygu nad yw Llywodraeth y DU yn gallu gwneud penderfyniadau ac ni allant ymgymryd â'r broses i ddynodi safleoedd treth nes bod yr Achosion Busnes Amlinellol wedi'u cymeradwyo. Roeddem wedi bod yn gweithio i gwblhau'r broses hon cyn toriad yr haf. Bydd dynodi safleoedd treth a phenderfyniadau pellach nawr yn faterion i Lywodraeth y DU yn y dyfodol i'w hystyried. Nid oes unrhyw oedi o ochr Llywodraeth Cymru.

Dur

Mae'r diwydiant dur yng Nghymru yn parhau i weithredu mewn amgylchedd heriol ac wedi nodi nifer o flaenoriaethau y mae angen mynd i'r afael â hwy i gefnogi gwneud dur cynaliadwy. Mae'r rhain yn cynnwys datgarboneiddio, costau ynni, caffael dur yn gyhoeddus a materion sy'n effeithio ar y fasnach ddur.

Rydym yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU i wneud y gorau o'r cyfleoedd sy'n codi i ddiwydiant a busnesau Cymru o fentrau'r DU, gan gynnwys y Gronfa Trawsnewid Ynni Diwydiannol (IETF). Celsa Steel yw un o'r cwmnïau yng Nghymru a lwyddodd i dderbyn cymeradwyaeth o dros £20m o gymorth drwy IETF.

O fuddsoddi yn y Sefydliad Dur a Metelau ym Mhrifysgol Abertawe i greu'r Porthladd Rhydd Celtaidd newydd – cam a gefnogir gan Tata Steel UK – mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i fod yn ymrwymedig i ddefnyddio ei hysgogiadau i gefnogi'r diwydiant i bontio a'r swyddi y gall eu cefnogi.

Bydd cadarnhad Tata Steel UK ar 25 Ebrill ynghylch diwedd cynhyrchu dur drwy ffwrnais chwyth ym Mhort Talbot yn cael effaith bellgyrhaeddol ar weithwyr Tata, eu cadwyn gyflenwi a'u cymunedau lleol. Mae'n siomedig nad yw'r argymhellion yn yr adroddiad aml-undebol a gomisiynwyd gan Bwyllgor Dur y DU ar bontio i gynhyrchu dur carbon is ym Mhort Talbot wedi cael eu mabwysiadu.

Ers dechrau fy swydd bresennol, rwyf wedi cynnal cyfarfodydd gyda'r cwmni, yr undebau llafur ym maes dur, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Chyngor Castell-nedd Port Talbot ynghylch dyfodol safle Tata ym Mhort Talbot a gweithrediadau cysylltiedig. Mae'r Prif Weinidog hefyd wedi cynnal trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau.

Ymwelodd y Prif Weinidog â Tata Steel Ltd ym Mumbai ar 10 Ebrill i drafod dyfodol Tata Steel UK a byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r cwmni i ddeall beth fydd y pontio yn ei olygu yn ymarferol i bob safle yng Nghymru ar lefel weinidogol ac ar lefel swyddogion.

Mae Bwrdd Pontio Tata wedi cytuno ar bum maes blaenoriaeth ar gyfer cymorth. Mae'r rhain yn cynnwys paru swyddi, sgiliau a chyflogadwyedd; sefydlu Cronfa Bontio Cadwyn Gyflenwi yn ogystal â chronfa Tyfu Busnesau a Dechrau Busnesau a chymorth ar gyfer iechyd meddwl a lles a phrosiectau adfywio. Rydym yn gweithio'n agos gyda phartneriaid ar y Bwrdd Pontio i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt ac yn gallu cael gafael arno.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi gweithwyr yn y diwydiant dur ym mhob ffordd bosib ac yn dal i weithio'n galed dros ddyfodol cynhyrchu dur yng Nghymru.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 4

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon